



# Cynefinoedd llwm, garw!




## Bwriad Dysgu

- Ymchwilio i amrywiaeth o greaduriaid arfordirol a dod o hyd i gartrefi addas ar eu cyfer.
- Deall bod rhaid i gynefin gynnig yr hyn y mae eu hangen ar anifail: bwyd, dŵr, lloches a rhywle i fridio.

## Sgiliau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

**Saesneg -** Ysgrifennu ar gyfer ystod o ddibenion.

Ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd go iawn neu ddychmygol.

Ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau.

**Gwyddoniaeth -** Y ffactorau amgylcheddol sy'n effeithio ar yr hyn sy'n tyfu ac yn byw yn y ddau amgylchedd hynny.

- Sut mae pobl yn effeithio ar yr amgylchedd lleol.

**ADCDF -** Yr amgylchedd naturiol.

## Amlinelliad o'r Gweithgaredd

✱ Ymchwilio i anifail sy'n byw ger yr arfordir.

✱ Gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch cynefinoedd addas er mwyn goroesi.

✱ Gweithio mewn grwpiau i greu taflen wybodaeth ar gyfer Gwerthwyr Tai am un cynefin penodol a welwyd.

## Adnoddau

Deunydd ymchwil y rhyngrhwyd

Taflen Bywyd Glan y Môr

*Llawlyfr Glan y Môr Castell-nedd Port Talbot* (.pdf ar gael ar y wefan)

# Cynefinoedd llwm, garw!

**Amlinelliad o'r Wers**

- Trafod â'r plant, enwau creaduriaid gwahanol maent wedi'u gweld ar lan y môr. Edrych yn ôl ar y rhestr o enwau anifeiliaid a grëwyd gan y dosbarth.
- Adolygu proffiliau'r anifeiliaid a grëwyd gan y disgyblion yn y drydedd wers. Gallent fod yn adar, yn bysgod neu'n anifeiliaid di-asgwrn-cefn. Gofyn i grwpiau ddosbarthu'r anifail - beth a'i helpodd i wneud hynny?
- Trafod ble maent yn byw ar lan y môr mewn parau neu grwpiau bach. Efallai bod y plant wedi'u gweld yn ystod yr ymweliad dosbarth, siarad am ble'r oeddent ar y traeth.
- Esbonio bod gwahanol gynefinoedd ar lan y môr, ac y bydd y dosbarth yn darganfod ym mha un mae'r anifail maent wedi ysgrifennu amdano yn byw ynddo.
- Gall y dosbarth weithio mewn grwpiau bach i ddarganfod mwy am y cynefin - defnyddio taflen wybodaeth Bywyd Glan Môr a Llawlyfr Glan y Môr Castell-nedd Port Talbot (.pdf ar gael ar y wefan).
- Siarad am sut i gyflwyno canfyddiadau'r dosbarth - efallai gallwch greu llawlyfr i'r cynefin ar gyfer gwerthwyr tai!
- (*Gallech hefyd annog y disgyblion i roi adroddiad llafar am y cynefin maent wedi bod yn ymchwilio iddo - gan drafod beth sy'n byw yno, sut maent yn gallu byw yno, beth a gynigir gan y cynefin i'r gwahanol anifeiliaid a phlanhigion - gan ddefnyddio'r fframwaith ysgrifennu adroddiad llafar i gefnogi'u trafodaeth*).

Pa gynefin sydd â'r nifer mwyaf o greaduriaid? Pam?

Pa gynefinoedd sydd fwyaf addas ar gyfer anghenion y creaduriaid hyn?

Ydy hi'n hawdd adnabod yr holl greaduriaid?

Beth yw'r cynefinoedd gwahanol sydd i'w cael ar lan y môr?